

Lesley Griffiths AS/MS
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf LG/00451/21

Mike Hedges MS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

27 Ionawr 2021

Annwyl Mike

Diolch am eich llythyr dyddiedig 11 Ionawr, ynghylch effaith gweithredu diwydiannol sydd yn bosib gan yr undeb GMB ar gyflawni'r Cynllun Nyth Rhaglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru.

Cychwynnodd aelodau'r GMB weithredu diwydiannol ar 7 Ionawr am gyfnod cychwynnol o bum diwrnod. Mae camau pellach wedi ei drefnu ar saith diwrnod gwahanol rhwng 20 Ionawr ac 1 Chwefror.

Mae'r Prif Weinidog wedi ysgrifennu at y cwmni yn egluro bod Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn bryderus iawn na wnaed cynnydd tuag at ddatrys yr anghydfod drwy drafod.

Yng Nghymru rydym wedi ymrwymo i bartneriaeth gymdeithasol fel modd i ddatrys materion anodd ac mae gan Lywodraeth Cymru, ynghyd â'i phartneriaid, ddi-ddordeb clir ac uniongyrchol mewn hyrwyddo canlyniad sy'n seiliedig ar y dull hwn. Mae'r Prif Weinidog wedi ysgrifennu at y cwmni i'w annog i barhau i drafod gyda'r holl undebau gyda'r bwriad o ddod i ganlyniad y cytunwyd arno gyda'i holl weithlu.

Mae fy swyddogion wedi cadarnhau nad yw gweithredu diwydiannol yn effeithio ar gyflawni'r Cynllun Nyth. Mae mesurau effeithlonrwydd ynni a ddarperir trwy'r Cynllun Nyth yn cael eu gosod gan gontractwyr yng Nghymru, nid gweithwyr Nwy Prydain. Nid yw staff rheoli a chymorth Nwy Prydain sy'n gweithio ar y Cynllun Nyth yn cymryd rhan yn y gweithredu diwydiannol. Ni ddisgwylir i'r sefyllfa hon newid. Mae Nwy Prydain wedi cadarnhau bydd y cytundeb gyda GMB i barhau i ddarparu gwasanaethau peirianegol Nwy Prydain mewn achosion brys, fel deiliaid cartrefi heb wres na dŵr poeth, yn ystod cyfnodau o weithredu diwydiannol yn cael ei gynnal.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd fy swyddogion yn parhau i weithio'n agos gydag uwch reolwyr Cynllun Nyth Nwy Prydain i ddeall unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg neu gynllunio wrth gefn a allai fod eu hangen. Disgwyliwn i holl gontractwyr y Llywodraeth gefnogi egwyddorion gwaith teg, ac mae'n bwysig ein bod yn sicrhau bod cartrefi incwm isel yn parhau i elwa o'r mesurau effeithlonrwydd ynni cartref sy'n cael eu cyflawni trwy ein Cynllun Nyth.

Cofion

A handwritten signature in black ink that reads "Lesley Griffiths". The signature is written in a cursive, flowing style.

Lesley Griffiths AS/MS

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs